**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20 Mehefin 2016**

## CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – PRYNU AELODAETH YN ÔL YN DILYN GWEITHREDU DIWYDIANNOL

**Adroddiad gan: Y Trysorydd Dros Dro, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc i'r Awdurdod**

### Diben yr Adroddiad

1 Mae angen penderfyniad gan yr Awdurdod Tân ynglŷn â thalu cyfaniadau pensiwn y cyflogwr yn ystod cyfnodau o streicio a gafwyd gan weithwyr yr ochr weithredol.

### Cefndir

2 Yn dilyn diwygiadau arfaethedig i bensiynau, fe wnaeth diffoddwyr tân ledled Cymru a Lloegr streicio dros gyfnod o ddeuddeng mis, ar adegau rhwng 25ain Medi 2013 a 16eg Awst 2014.

### Gwybodaeth

3 Dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân ni fydd unrhyw absenoldeb ar streic yn cyfri fel gwasanaeth pensiynadwy. Gall aelod o'r cynllun pensiwn, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Awdurdod cyn pen chwe mis, 'brynu'n ôl' y diwrnodau streicio er mwyn iddynt gyfri fel gwasanaeth pensiynadwy.

4 Pan fo aelod gweithredol yn absennol o gyflogaeth y cynllun oherwydd anghydfod undebol, gall rheolwr y cynllun ei gwneud yn ofynnol i'r aelodau dalu cyfraniadau'r cyflogwr yn ogystal â'u cyfraniad eu hunain.

5 Mae gan yr Awdurdod disgresiwn, dan reol F2 (5) o gynllun pensiwn y diffoddwyr tân FPS 1992 ac o dan reoliad 111 o gynllun NFPS a chynllun pensiwn diffoddwyr tân 2015, ddewis talu cyfraniadau'r cyflogwr yn lle'r aelodau, os yw'n dymuno gwneud hynny.

6 Fel arfer, defnyddir y disgresiwn hwn ar ôl i'r anghydfod undebol ddod i ben ond gan fod Undeb yr FBU yn dal i herio'r newidiadau, mae rheolwr y cynllun wedi penderfynu cwblhau'r camau angenrheidiol i sicrhau bod cofnodion aelodaeth y cynllun yn gywir ac yn gyfoes.

**Argymhelliad**

7 Bod yr Aelodau'n:

(i) nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad;
(ii) penderfynu a fydd yn ofynnol i weithwyr dalu'n ôl gyfraniadau pensiwn y gweithiwr a'r cyflogwr am y cyfnodau dan sylw ai peidio.